Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru

(Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Adran 75)

Awst 2015

ISBN digidol 978 1 4734 4422 5
© Hawlfraint y Goron 2015
WG25855

# Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru

## Cyflwyniad

1. Gwneir y Cynllun hwn o dan Adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun yn esbonio sut, wrth arfer eu swyddogaethau, y maent yn bwriadu ystyried buddiannau busnes yng Nghymru. Mae rhestr o'r gofynion statudol a diffiniad o'r termau i'w gweld yn yr atodiadau.

2. Mae Gweinidogion Cymru a'r partneriaid cymdeithasol wedi ymrwymo i gydweithredu er budd economi a chymdeithas Cymru. Mae Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru yn esbonio'r egwyddorion cyffredinol a'r gwerthoedd cyffredin sy'n rheoli'r berthynas rhwng Gweinidogion Cymru a'r partneriaid cymdeithasol yng Nghymru.

## Amcanion

3. Bydd Gweinidogion Cymru a'r partneriaid cymdeithasol yn ceisio:

   - gwneud Cymru yn lle da i fusnesau a, drwy hynny, helpu i sicrhau twf economaidd cryf a pharhaol gan wneud y gorau o adnoddau naturiol Cymru a chreu sylfaen ar gyfer polisïau cymdeithasol cynaliadwy;
   - hyrwyddo economi mwy entrepreneuraidd a chystadleuol;
   - creu amodau sy'n caniatáu i'r partneriaid cymdeithasol fod yn rhan o'r broses o ddatblygu polisïau Llywodraeth Cymru er budd pobl Cymru;
   - annog y partneriaid cymdeithasol i gydweithredu â'i gilydd ac i gydweithredu â Llywodraeth Cymru.

4. Ym mhob agwedd ar eu cyfrifoldebau, mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i sefydlu a chynnal gweithdrefnau i sicrhau arfer da wrth weinyddu cynlluniau i ymgysylltu â'r partneriaid cymdeithasol.

## Rhoi'r Cynllun Busnes ar waith

5. Mae Llywodraeth Cymru a'r partneriaid cymdeithasol wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Cynllun Busnes a'i egwyddorion creiddiol.

6. Mae gan Brif Weinidog Cymru gyfrifoldeb cyffredinol o fewn y Llywodraeth dros Gynllun Busnes Gweinidogion Cymru.

7. Mae Gweinidogion Cymru:

- yn disgwyl i swyddogion arweiniol penodol o bob un o adrannau Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol dros roi cynllun Busnes Llywodraeth Cymru ar waith yn eu hadrannau eu hunain;
- yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ystyried buddiannau busnes ym mhob agwedd ar eu gwaith a'u penderfyniadau;
- yn mabwysiadu:
    i. polisi i gydweithredu â'r partneriaid cymdeithasol a mesurau i ategu hyn;
    ii. trefniadau i sefydlu dulliau effeithiol o drafod ac ymgynghori â'r partneriaid cymdeithasol;
    iii. trefniadau i adolygu'r gwaith o roi Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru ar waith.

8. Bydd y partneriaid cymdeithasol yn:

- cytuno ar drefniadau i gydweithio â Gweinidogion Cymru;
- manteisio ar gyfleoedd i arwain mewn rhai meysydd os cytunir mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny;
- cyfrannu, fel y bo'n briodol, at gyfnod cychwynnol y gwaith o ddatblygu polisïau a rhaglenni Gweinidogion Cymru;
- rhoi barn am y blaenoriaethau a'r gweithdrefnau ar gyfer gweinyddu a dosbarthu adnoddau i fusnesau;
- cyfrannu at y gwaith o roi polisïau ar brawf i sicrhau bod anghenion busnesau'n cael eu hystyried.

9. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod cysylltiad rhwng yr adnoddau sydd ar gael i bartneriaid cymdeithasol a'u gallu i ymgysylltu. Bydd Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod y disgwyliadau ar y partneriaid cymdeithasol i ymgysylltu'n adlewyrchu eu gallu i wneud hynny.

10. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod cyfraniad y partneriaid cymdeithasol at y gwaith o ddatblygu polisïau a'u rhoi ar waith ac yn cydnabod hefyd y pwysau ychwanegol y mae'r gofyniad i ymgysylltu â busnesau'n ei roi ar y partneriaid cymdeithasol. Gan hynny, yn ogystal â sicrhau bod disgwyliadau rhesymol ar y partneriaid cymdeithasol i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu, bydd Gweinidogion Cymru yn eu cynorthwyo yn y broses honno drwy ddarparu adnoddau.

11. Bydd Gweinidogion Cymru, ar y cyd â Commerce Cymru, Canolfan Gydweithredol Cymru a TUC Cymru, yn nodi'r rhwydweithiau busnes a'r cyrff ymbarél perthnasol sydd â diddordeb yng ngwaith Gweinidogion Cymru ac yn cytuno ar drefniadau ymarferol i ganiatáu iddynt drafod a chydweithredu ar lefel weithredol. Yn eu tro, bydd Gweinidogion Cymru yn disgwyl i'r partneriaid cymdeithasol gydweithredu a chreu rhwydweithiau priodol sy'n gallu gweithio gyda Gweinidogion Cymru ar faterion cyffredin fel polisïau a gweinyddu.

12. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi rhestr i'r partneriaid cymdeithasol yn enwi'r uwch swyddogion arweiniol ym mhob adran sy'n gyfrifol am roi Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru ar waith yn eu hadrannau. Bydd y

swyddogion arweiniol yn gyfrifol am sicrhau bod eu hadrannau'n ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â'r partneriaid cymdeithasol a meithrin dealltwriaeth well o sut y mae pob un yn gweithredu.

13. Bydd Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod digon o gapasiti a bydd yn asesu a yw Asesiadau o Effaith Rheoleiddiol yn ystyried yn briodol sut y bydd deddfwriaeth arfaethedig, a newidiadau arfaethedig i bolisïau, nad oes angen deddfwriaeth i'w rhoi ar waith, yn effeithio ar fusnesau.

14. Wrth gymryd rhan mewn trefniadau ymgynghori, bydd Gweinidogion Cymru a'r partneriaid cymdeithasol yn ceisio nodi a gweithredu enghreifftiau o arfer da ar gyfer gwaith ymgysylltu/gweithio mewn partneriaeth pan fydd cyfle i wneud hynny.

**Datblygu polisïau a deddfwriaeth**

15. Bydd Gweinidogion Cymru yn sicrhau y byddant yn ystyried y goblygiadau i fusnesau yn ystod y camau cychwynnol o ddatblygu polisïau newydd, neu wrth ystyried newidiadau i bolisïau a allai effeithio ar fusnesau. Cyhyd ag y bo'n rhesymol iddynt wneud hynny, bydd Gweinidogion Cymru yn osgoi neu leihau unrhyw effaith andwyol ar fusnesau ac yn dod o hyd i gyfleoedd i hybu busnesau. Caiff partneriaid cymdeithasol wybod os yw polisïau / rhaglenni Llywodraeth Cymru yn debygol o effeithio arnynt a chânt eu cynnwys mewn trafodaethau cyn gynted â phosibl yn y broses, pan fo hynny'n rhesymol, cyn yr ymgynghoriad ffurfiol.

16. Os penderfynir y bydd polisi'n effeithio ar fusnesau, dylai Gweinidogion Cymru, fel rhan o'r broses o ddatblygu polisïau, ystyried a oes lle i greu esemptiadau neu ddarpariaethau arbennig i leihau neu i ddileu unrhyw effaith andwyol ar y sector busnes neu weithwyr yn y sector busnes.

17. Wrth ddatblygu ac ymgynghori â'r partneriaid cymdeithasol ynghylch cynigion polisi sy'n effeithio ar fusnesau, dylai Gweinidogion Cymru:

- sicrhau bod y partneriaid cymdeithasol yn cael cyfle i gyfrannu at y broses o ddatblygu'r polisi yn ystod y camau cychwynnol;
- sicrhau bod y cynigion yn cael eu cyflwyno mewn modd sy'n caniatáu i'r partneriaid cymdeithasol gyfrannu yn y ffordd fwyaf defnyddio ac effeithiol;
- sicrhau bod y partneriaid cymdeithasol yn cael digon o gyfleoedd i gyfrannu at ddeddfwriaeth arfaethedig a gynigir gan Weinidogion Cymru;
- sicrhau bod y partneriaid cymdeithasol yn cael cyfle i roi eu barn am y broses ymgynghori arfaethedig;
- ystyried a yw busnesau'n cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn strwythurau sy'n gysylltiedig â'r broses o roi polisïau newydd ar waith.

18. Bydd Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod y canllawiau a roddir i'w swyddogion mewn perthynas ag ymgynghoriadau'n adlewyrchu egwyddorion Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru.

19. Bydd Gweinidogion Cymru yn cynnwys trefniadau i ymgynghori â'r partneriaid cymdeithasol mewn cynlluniau i ddatblygu polisïau ac unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig berthnasol. Bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ynghylch cynigion penodol yn ogystal ag ynghylch egwyddorion mwy cyffredinol.

20. Bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori drwy ddefnyddio dulliau priodol, a gall y rhain gynnwys arolygon i roi syniad o ba mor gryf yw barn y partneriaid cymdeithasol a gwaith ymchwil ansoddol i ddeall amrywiaeth a chymhlethdod eu barn.

21. Gall ymgynghoriadau ysgrifenedig amrywio o ymgynghoriadau cyhoeddus eang i ymgynghoriadau bach â grwpiau arbenigol ynghylch materion sydd o ddiddordeb cyfyngedig neu faterion technegol eu natur.

22. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod mai'r partneriaid cymdeithasol ddylai benderfynu a ydynt am ymateb i unrhyw ymgynghoriad, a sut, gan ystyried eu hamgylchiadau penodol a'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

23. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod na fydd y ffaith bod partneriaid cymdeithasol yn cymryd rhan mewn proses ymgynghori yn golygu y byddant yn cytuno â chanlyniadau'r broses ymgynghori honno neu'r polisïau a fydd yn deillio ohoni.

24. Nid yw Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru yn atal Gweinidogion Cymru rhag ymgysylltu mewn unrhyw ffordd arall ag unrhyw bartner cymdeithasol unigol.

**Cyngor Adnewyddu'r Economi**

25. Bydd Cyngor Adnewyddu'r Economi yn parhau. Prif Weinidog Cymru fydd yn ei gadeirio a bydd yn cynnwys Gweinidogion Cymru a'r Dirprwy Weinidogion, cynrychiolydd o Fenter Gymdeithasol, pump o gynrychiolwyr o Commerce Cymru a phump arall o TUC Cymru. Bydd Commerce Cymru a TUC Cymru yn sicrhau, cyhyd ag y bo modd, fod eu cynrychiolwyr yn adlewyrchu croestoriad o fuddiannau a gweithgareddau.

26. Bydd Cyngor Adnewyddu'r Economi yn ymgymryd â rôl strategol wrth nodi heriau/cyfleoedd i economi Cymru ac wrth benderfynu sut y gall Llywodraeth Cymru a'r partneriaid cymdeithasol gydweithredu i gyflawni'r heriau ac i fanteisio ar y cyfleoedd hynny.

27. Fel arfer, bydd Cyngor Adnewyddu'r Economi yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn a gall hefyd sefydlu gweithgorau i ymgymryd â darnau penodol o waith. Gall y Cyngor hefyd benodi unigolion sy'n cynrychioli partneriaid cymdeithasol ac sydd ag arbenigedd perthnasol i roi cyngor yn ei gyfarfodydd neu i fod yn aelodau o weithgor.

28. Bydd Cyngor Adnewyddu'r Economi yn cael adroddiadau cynnydd blynyddol ar roi'r Cynllun Busnes ar waith ym mhob un o adrannau Llywodraeth Cymru. Y swyddogion arweiniol a enwebir ym mhob adran fydd yn gyfrifol am baratoi'r adroddiadau hyn.

29. Bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi gwybodaeth i Gyngor Adnewyddu'r Economi am y cyrff a sefydlwyd i roi cyngor ynghylch materion polisi.

30. Bydd swyddogion Gweinidogion Cymru yn cynorthwyo Cyngor Adnewyddu'r Economi. Bydd cyrff/unigolion eraill sy'n cynrychioli buddiannau busnes hefyd yn cael eu gwahodd i'r cyfarfodydd ac i siarad ynddynt os yw'r Cadeirydd yn cytuno iddynt wneud hynny.

**Adolygu effaith y Cynllun Busnes a'r modd y caiff ei roi ar waith.**

31. Caiff effaith y Cynllun Busnes, a'r modd y caiff ei roi ar waith, ei adolygu, a chyflwynir adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol bob dwy flynedd o leiaf, yn unol â gofynion Adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

32. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar gylch gorchwyl yr adroddiad statudol mewn ymgynghoriad â'r partneriaid cymdeithasol.

33. Bydd Gweinidogion Cymru yn cynghori ynghylch rhoi'r Cynllun Busnes ar waith, ei fonitro a'i adolygu.

# ATODIAD 1

# GOFYNION STATUDOL

## Detholiad o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg felly mae'r detholiad yn yr iaith wreiddiol:

**Section 75 Business Scheme**

1. The Welsh Ministers must make a Scheme ("the Business Scheme") setting out how they propose, in the exercise of their functions, to take account of the interests of business.

2. The Business Scheme must specify how the Welsh Ministers propose:

   a) to carry out consultation about the exercise of such of their functions as relate to matters affecting the interests of business; and
   b) to consider the impact of the exercise of their functions on the interests of business.

3. The Welsh Ministers

   a) must keep the Business Scheme under review, and
   b) may from time to time remake or revise it.

4. Before making, remaking or revising the Business Scheme, the Welsh Ministers must consult such organisations representative of business (including trade unions) and such other organisations as they consider appropriate.

5. The Welsh Ministers must publish the Business Scheme when they make it and whenever they remake it; and, if they revise the scheme without remaking it, they must publish either the revisions to the scheme as revised (as they consider appropriate).

6. If the Welsh Ministers publish a Business Scheme or revisions under subsection (5) they must lay a copy of the Business Scheme or revisions before the Assembly.

7. The Welsh Ministers must:

   a) within the period of two years beginning with the day on which the Business Scheme is first made, and

b) subsequently at intervals of no more than two years, publish a report of how the proposals set out in the Business Scheme have been implemented.
c) The Welsh Ministers must lay before the Assembly a copy of each report published under subsection (7).

## ATODIAD 2

## TERMAU

1) Mae'r term 'partneriaid cymdeithasol' yn cyfeirio at gymdeithasau gweithwyr a busnes, undebau llafur a'r aelodau y maent yn eu cynrychioli.

2) Mae'r term 'busnes' yn cyfeirio at unrhyw unigolyn a chorff corfforaethol sy'n ymgymryd â busnes er mwyn gwneud elw gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu yn y sector menter gymdeithasol a'r cymdeithasau hynny sy'n cynrychioli unigolion a chyrff corfforaethol o'r fath; ynghyd â'r sefydliadau hynny sy'n cynrychioli unigolion sy'n cyfrannu at greu'r elw hwnnw, gan gynnwys undebau llafur.

## ATODIAD 3

## COMMERCE CYMRU

Grŵp ymbarél, heb ffurf gyfreithiol, yw Commerce Cymru, sy'n cynnwys cyrff sy'n cynrychioli busnesau Cymru. Ffurfiwyd y grŵp er mwyn creu canolbwynt ar gyfer trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector busnes yng Nghymru, a hynny'n bennaf i hwyluso'r broses o ddewis cynrychiolwyr o fyd busnes i fod yn aelodau o Gyngor Adnewyddu'r Economi. Nid oes gan Commerce Cymru ei hadnoddau ei hun.

Dyma aelodau presennol Commerce Cymru:

Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
Siambr Cymru
Sefydliad Marchnata Siartredig
Cymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
Ffederasiwn Cyflogwyr Peirianyddol
Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr
Ffederasiwn Busnesau Bach
Fforwm Busnesau Preifat
Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Road Haulage Association
Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain
Cymdeithas y Gyfraith Cymru a Lloegr
Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig